www.lpwscheme.org.uk

DIWYGIWYD GORFFENNAF 2009

DARLLENWCH HWN YN DRYLWYR CYN LLENWI'CH CAIS

Arweiniad ar y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

Cynnwys

Cyflwyniad 1

Y Broses 4 Cam 2

Cam 1 – Man Addoli 3

Cam 2 – Adeilad Rhestredig 4

Cam 3 – Gwariant Cymwys 5

Cam 4 – Llenwi'r Ffurflen Gais 7

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn wedi'i lunio i'ch cynorthwyo i lenwi'r ffurflen gais. ***Darllenwch hwn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais.*** Os bydd angen arnoch fwy o gymorth, yna ffoniwch un o'n gweithredwyr ar 0845 601 5945. Codir pris galwad lleol am yr alwad.

Byddwn yn cadw rhywfaint o'r wybodaeth a roddir i ni ar gyfrifiadur. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn prosesu ceisiadau a grantiau ac i gynhyrchu ystadegau. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â sefydliadau eraill sy'n rhoi grantiau, fel English Heritage, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, dosbarthwyr perthnasol eraill y Loteri ac asiantaethau treftadaeth y gweinyddiaethau datganoledig; sef Cadw, Historic Scotland, ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon er mwyn osgoi dyblygu taliadau.

Cefndir

Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yn y Gyllideb (Mawrth 2001) ei fod yn bwriadu cyflwyno cynllun grantiau interim a fyddai'n ad-dalu ar ffurf cymorth grant y gwahaniaeth rhwng 5% a'r gwir swm a wariwyd ar TAW ar waith cynnal a chadw ac atgyweiriadau cymwys ar fannau addoli rhestredig. Estynnwyd hyn yng Nghyllideb Mawrth 2004 i gynnwys y swm llawn sy'n cael ei wario ar TAW am waith cymwys a wnaed ar 1 Ebrill 2004 ac ar ôl hynny.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynigion i'r Comisiwn Ewropeaidd am gyfradd TAW ostyngedig o 5% ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau ar fannau addoli rhestredig. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r cynllun barhau tan 31 Mawrth 2011 oni bai bod cyfradd ostyngedig barhaol yn cael ei chyflawni ynghynt.

Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

Mae'r cynllun:

- yn berthnasol dim ond ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau ar adeiladau rhestredig a ddefnyddir yn bennaf fel mannau addoli;
- yn berthnasol i fannau addoli rhestredig ledled y DU sy'n cael eu cynnwys ar gofrestri cyhoeddus o'r adeiladau rhestredig a gedwir ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- yn berthnasol i fannau addoli rhestredig pob crefydd;
- yn berthnasol i fannau addoli rhestredig sydd ym mherchnogaeth neu wedi eu breinio mewn nifer o sefydliadau penodol sy'n gofalu am eglwysi segur;
- yn annewisol;
- yn cynnwys gwaith a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2001; ac
- yn derbyn ceisiadau ar ôl gwneud y gwaith yn unig.

Ar gyfer gwaith cymwys a wnaed rhwng 1 Ebrill 2001 a 31 Mawrth 2004, mae'r cynllun yn defnyddio'r gwahaniaeth rhwng y TAW a dalwyd (sef 17.5% fel arfer) a 5% er mwyn cyfrif faint o grant a ganiateir.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ostyngiad dros dro yn y gyfradd TAW sy'n daladwy o 1 Rhagfyr 2008. Bydd TAW yn parhau i gael ei had-dalu ar y gyfradd a dalwyd yn unol â'r anfoneb sy'n ategu'r cais.

Ar gyfer gwaith cymwys a wnaed ar ac ar ôl 1 Ebrill 2004, mae'r cynllun yn ad-dalu swm llawn y TAW a dalwyd.

I weld a ydych chi'n gymwys ar gyfer y cynllun ai peidio, dilynwch y broses 4 cam a ddisgrifir ar y tudalennau canlynol.

Y Broses 4 Cam

Bydd y broses 4 cam a welir isod yn eich cynorthwyo i ddeall p'un ai ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun, ac os ydych o'r farn eich bod, cewch gymorth i lenwi'r ffurflen gais.

Os ydych am unrhyw gymorth yna ffoniwch un o'n gweithredwyr ar 0845 601 5945. Codir pris cyfradd leol am alwadau.

Y Broses 4 Cam



Disgrifir y camau yn fanwl isod.

Cam 1 – Man Addoli



Nodyn 1.1: 'yn unig neu'n bennaf'

Rhaid i'r adeilad gael ei ddefnyddio'n unig neu'n bennaf fel man addoli cyhoeddus.

Adeiladau rhestredig ategol Nid yw'r rhain yn cael eu cynnwys oni bai eu bod yn bodloni holl amodau'r prif adeilad, h.y. cânt eu defnyddio'n unig neu'n bennaf fel man addoli crefyddol cyhoeddus

Nodyn 1.2: 'man addoli cyhoeddus'

Bwriad y cynllun yw cynorthwyo gydag atgyweirio mannau addoli lle byddai'r costau'n gyfrifoldeb cynulleidfa leol neu enwad neu grŵp ffydd cydnabyddedig. Nid yw ***capeli preifat, a chapeli mewn ysgolion, colegau, prifysgolion, ysbytai, carchardai ac elusendai*** yn gymwys o dan y cynllun oni bai bod **POB UN** o'r canlynol yn gymwys:

- Mae'r adeilad ar gael i'r cyhoedd am o leiaf 6 gwasanaeth crefyddol y flwyddyn, ac mae'r argaeledd hwnnw'n cael ei gyhoeddi ac nid yw trwy wahoddiad yn unig;
- Unig ddiben neu brif ddiben yr adeilad yw man addoli crefyddol cyhoeddus;
- Cyfrifoldeb cynulleidfa leol neu grŵp ffydd cydnabyddedig yw'r costau atgyweirio.

Nid yw adeilad a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w ddefnyddio gan weinidog crefydd yn unig neu'n bennaf fel preswylfa i gyflawni dyletswyddau ei swydd yn cael ei gynnwys. Lle bo'r adeilad yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyster eraill ond yn cynnwys rhan **sylweddol** o le at ddibenion heb fod yn rhai addoli, e.e. llety, gweithgareddau hamdden, paratoi bwyd ar raddfa fasnachol ac ati, ni fyddwn yn talu am atgyweiriadau i'r rhannau hyn.

Mae'r cynllun yn cynnwys ***sefydliadau crefyddol â chyfansoddiad ffurfiol*** yn unig. Gofynnir i chi ardystio bod y sefydliad crefyddol sy'n defnyddio'r man addoli:

- â statws elusennol neu yn cael ei gydnabod yn elusen gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu Gyllid y Wlad yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon; neu
- yn cael ei gwmpasu gan gyngor plwyf eglwysig, neu
- os nad yw'r un o'r rhain yn berthnasol, gofynnir i chi roi copi o'ch cyfansoddiad.

Nodyn 1.3: 'chwe gwaith y flwyddyn'

Rhaid i'r adeilad gael ei ddefnyddio fel ***man addoli cyhoeddus*** o leiaf ***chwe gwaith y flwyddyn.*** Gofynnir i chi dystio bod hyn yn wir.

Nodyn 1.4: 'mynachdai, lleiandai a chyrff penodol sy'n gofalu am eglwysi segur'

Nid oes gofyn i fannau ***addoli a ddefnyddir gan fynachdai, lleiandai*** neu sefydliadau tebyg eraill, ac eglwysi ym mherchnogaeth neu wedi'u breinio mewn sefydliadau penodol sy'n gofalu am ***fannau addoli segur*** fel yr Ymddiriedolaeth Capeli Hanesyddol, Cyfeillion Eglwysi Digyfaill, Ymddiriedolaeth Eglwysi Segur Yr Alban, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi ac Ymddiriedolaeth Adeiladu Crefyddol Cymru, ddangos bod yr adeiladau yn cael eu defnyddio ar gyfer addoli cyhoeddus o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

Ar gyfer ***mynachdai a lleiandai a sefydliadau tebyg o ffydd arall,*** y rhan honno o'r adeilad a ddefnyddir at addoli crefyddol yn unig sy'n gymwys. Nid yw rhannau eraill o'r adeilad yn gymwys (e.e. y rheiny a ddefnyddir at ddibenion llety, fel lle bwyta ac ati). Os yw'r gwaith yn cynnwys rhannau sy'n gymwys a rhai nad ydynt yn gymwys, yna rhaid rhannau'r rhain wrth wneud y cais.

Cam 2 – Adeilad Rhestredig



Nodyn 2.1: 'adeilad rhestredig'

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, mae'n rhaid bod eich eglwys wedi'i rhestru gyda'r asiantaeth restru statudol berthnasol (English Heritage, CADW, Historic Scotland neu Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon).

Os anfonir eich cais yn ôl atoch oherwydd na allwn adnabod rhestriad eich adeilad, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad yw'ch eglwys wedi'i rhestru – gall olygu bod y manylion a gofrestrwyd ar y pryd ychydig yn wahanol i'r rhai a nodir ar y ffurflen gais. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais ynghyd â'r gwaith papur i ddangos bod yr adeilad wedi'i restru gyda'r asiantaeth restru statudol berthnasol.

Mae gwirio'r cofnodion statudol i gadarnhau bod eich adeilad wedi'i restru'n ffurfiol yn rhan o'n proses gymeradwyo.

Gellir rhestru adeiladau am eu pwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol, cysylltiad hanesyddol agos â phobl neu ddigwyddiadau pwysig yn genedlaethol, neu eu gwerth fel rhan o grŵp, gan yr awdurdod rhestru yn eich gwlad. Mae oedran a phrinder yn ystyriaethau perthnasol, ond po hynaf yr adeilad, tebycaf yw y bydd wedi ei restru. Nid yw adeiladau sy'n llai na deng mlynedd ar hugain oed yn cael eu hystyried ar gyfer eu rhestru fel arfer.

Gwelir y manylion am sut i restru adeilad yn Atodiad A.

Cam 3 – Gwariant Cymwys



Nodyn 3.1: ‘cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2001’

Os yw'r anfoneb(au) a gyflwynir yn ymwneud â gwaith a ddechreuwyd cyn 1 Ebrill 2001 ond a orffennwyd ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i chi ddatgan pa ganran o'r gwaith a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2001 yn eich cais, os nad yw'r anfoneb yn nodi hynny'n glir.

‘cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2004’

O ran anfonebau ar gyfer gwaith cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2004, os nad yw'r anfoneb yn nodi'n benodol sut y rhennir y gwaith a wnaed cyn ac ar ôl y dyddiad hwn, mae'n rhaid datgan naill ai canran neu gost y gwaith a wnaed ar ôl 1 Ebrill 2004 ar y cais.

‘cyn ac ar ôl 1 Rhagfyr 2008’

Lle mae anfonebau a gyflwynir yn ymwneud â gwaith cyn ac ar ôl dyddiad y newid dros dro mewn TAW, ac yn cynnwys gwaith ar y gyfradd 17.5% a 15%, rhaid datgan y rhaniad naill ai ar yr anfoneb neu ar y cais.

Nodyn 3.2: 'wedi cofrestru at ddibenion TAW'

Mae'n rhaid i gontractwr sydd wedi'i gofrestru at ddibenion TAW wneud y gwaith a'r cynnal a chadw cymwys. Ni ellir hawlio at ddibenion TAW ar ddeunyddiau oni bai eu bod wedi eu hymgorffori yn yr adeiladwaith gan gontractwr sydd wedi ei gofrestru ar gyfer TAW.

Dylech sicrhau bod y contractwr wedi'i gofrestru at ddibenion TAW trwy ofyn am ei rif/rhif cofrestru TAW, a ddylai gael ei ddangos yn glir ar yr anfoneb. Cynhelir gwiriadau archwilio ar ganran o hawliadau ar ôl gwneud y taliad. Os cewch eich dewis ar gyfer un o’r gwiriadau hyn, dylech fod yn ymwybodol y byddwn yn cysylltu â’r holl gontractwyr rydych wedi hawlio TAW oddi wrthynt ar eich cais, er mwyn cadarnhau’r manylion gwahanol.

Yr unig swm y caniateir i fannau addoli sydd wedi eu cofrestru at ddibenion TAW ei hawlio (am eu bod yn codi tâl mynediad neu'n cynnal gweithgareddau busnes) ac sy'n talu cyfradd TAW net wirioneddol o rhwng 17.5% a 5%, fydd y gwahaniaeth rhwng swm y TAW y gallant ei hawlio yn unol â chytundeb â Chyllid a Thollau EM a 5% am waith cymwys a wnaed rhwng 1 Ebrill 2001 a 31 Mawrth 2004. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r cytundeb gyda'r cais. Yn achos gwaith a wnaed ar ac ar ôl 1 Ebrill 2004, gellir hawlio swm llawn y TAW a dalwyd.

Nodyn 3.3: ‘atgyweirio neu gynnal a chadw’

Dim ond gwaith a wneir i ***atgyweirio neu gynnal a chadw'r*** adeilad sy'n gymwys.

Mae gwaith a wnaed i atgyweirio neu gynnal a chadw ***adeiladwaith*** yr adeilad yn gymwys ac, ar ôl 22 Mawrth 2006, gwaith yn ymwneud ag atgyweirio clociau tŵr, organau pib sefydlog, seddau a chlychau, a ffioedd proffesiynol sy’n berthnasol i ystod o waith atgyweirio cymwys. Am fanylion llawn, gweler y rhestr wirio ar dudalen 7.

Mae'r adeiladwaith yn cynnwys sylfeini, waliau, toeau, nwyddau dŵr glaw, draeniau, arwynebau mewnol, lloriau, grisiau, pen risiau, dargludyddion mellt a'i holl ddrysau a ffenestri (mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw ffenest yn ogystal ag atgyweirio, ac felly gall darparu rhwyll i amddiffyn ffenestr werthfawr fod yn gymwys).

Mae gwasanaethau a gyflenwir mewn cysylltiad â'r gwaith atgyweirio (fel ***gwaith plymwr, gwaith gwresogi neu waith trydanol***) yn gymwys yn unig lle:

- Bo’u hangen DROS DRO er mwyn gwneud y gwaith atgyweirio cymwys. Os na chânt eu symud ar ôl gwneud y gwaith, nid ydynt yn gymwys; neu
- Roeddent mewn cyflwr gweithio da o’r blaen, ond fe’u difrodwyd wrth ymgymryd â’r gwaith cymwys; neu
- Bod angen eu symud er mwyn galluogi i’r gwaith cymwys gael ei wneud yn unig.

Nid ydynt yn gymwys lle:

- Bo’u hangen at ddibenion Iechyd a Diogelwch (dirywiad oherwydd oed);
- Gwnaed yr un pryd â’r gwaith cymwys; neu
- Cawsant eu difrodi ar yr un adeg â phan roedd yr adeiladwaith yn cael ei atgyweirio.
- Bod y gwasanaethau yn cael eu huwchraddio o ganlyniad. *(Byddwn yn talu hyd at gost ailosod y gosodiadau gwreiddiol. Lle na fydd hyn yn ymarferol neu’n gyfreithlon (yn unol â’r gyfraith neu weithdrefnau cyfredol), dylech gael pris gan y contractwr sy’n gyfwerth ag ailosod y gosodiadau gwreiddiol a chynnwys hyn gyda’ch cais.*

Nid yw gwaith i ***osodion a gosodiadau***, fel gosodiadau cegin neu doiled, gorchuddion llawr, dodrefn (ac eithrio seddau), silffoedd, hysbysfyrddau ac eitemau datgysylltiol yn gymwys.

Nid yw codi ***adeiladau newydd neu rannau o adeiladau*** yn gymwys.

Nid yw gwaith a wneir ar ***adeiladau ategol***, fel cerrig bedd a chofebion mewn mynwentydd, waliau terfyn, clwydi, gerddi, pyrth mynwentydd neu feysydd parcio yn gymwys.

Mae cost ***gwasanaethau proffesiynol*** fel penseiri, peirianwyr strwythurol, tirfesurwyr, goruchwylwyr cynllunio, archeolegwyr, ymgynghorwyr iechyd a diogelwch, arolygwyr ystlumod a phobl broffesiynol sy'n codi arian sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag atgyweirio cymwys yn gymwys o 22 Mawrth 2006. Lle mae'r costau hyn yn cynnwys gwaith cyn ac ar ôl y dyddiad hwn, neu sy’n berthnasol i gyfuniad o waith cymwys neu waith nad yw’n gymwys, rhaid datgan y rhan o’r ffioedd sy’n gymwys neu beidio ynghyd â’r cyfiawnhad am y rhaniad hwn, naill ai ar yr anfoneb neu ar y cais. Ym mhob achos rhaid darparu anfoneb i ddangos y gwaith atgyweirio y mae’r ffioedd yn berthnasol iddo.

Ni dderbynnir ceisiadau am ***ffioedd proffesiynol*** ar eu pennau eu hunain. Gellir hawlio unrhyw ffioedd am waith a wnaed cyn y gwaith perthnasol pan gânt eu cefnogi gan anfoneb am yr holl waith y maent yn cyfeirio ato neu ran ohono. Mae'n rhaid i ffioedd sy'n cyfeirio at gontract neu waith ar ôl eu cwblhau, gael eu cyflwyno gydag anfoneb ar gyfer y gwaith. *(Gall hyn fod yr anfoneb wreiddiol neu gopi ohoni gan ei bod at ddibenion dilysu yn unig. Ni fydd y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn adfer copïau o waith papur blaenorol er mwyn darparu'r dystiolaeth hon).* Ni fydd ffioedd proffesiynol sy'n berthnasol i waith nad yw'n gymwys, yn gymwys.

Ni dderbynnir ceisiadau ar gyfer ***arolygon, adroddiadau*** ac ***archwiliadau*** yn unig. Gellir hawlio unrhyw ffioedd am waith a wnaed cyn y gwaith perthnasol pan gânt eu cefnogi gan anfoneb am yr holl waith y maent yn cyfeirio ato neu ran ohono.

Mae ffioedd proffesiynol sy'n ymwneud â ***Chynlluniau Cynnal a Chadw*** yn gymwys yn unig lle bo'r cynllun yn ymwneud yn uniongyrchol â'r contract gwaith y gwneir cais amdano, a bod y gwaith ei hun yn gymwys. Nid yw Cynlluniau Cynnal a Chadw tymor hir (h.y. rhai am waith y bwriedir ei wneud dros gyfnod o 5 mlynedd,10 blynedd ac ati) yn gymwys.

Defnyddir y term ***Archwiliad Mynediad*** er mwyn
- disgrifio agwedd ar waith cychwynnol cyn atgyweirio'r adeiladwaith, er mwyn ystyried sut y gellir ymgymryd â'r atgyweiriadau angenrheidiol yn ddiogel; neu i
- ddisgrifio archwiliad o sut y caiff y cyhoedd fynediad i adeilad, gan gynnwys pobl anabl neu sut y gellir gwella hyn.

Yn unol â'r cynllun, y cyntaf yn unig sy'n gymwys.

Rydym yn defnyddio'r term 'draen' *i olygu'r pibwaith sy'n cario dŵr o'r safle yn hytrach na'r hyn sy'n cario dŵr i'r safle.* Mae atgyweirio **draeniau** (dŵr budr, dŵr wyneb, Ffrengig) neu waith cynnal a chadw arnynt neu nwyddau dŵr glaw yn gymwys os ydynt o fewn y waliau terfyn. Os nad yw'r anfoneb yn nodi'r math o ddraen, rhaid cynnwys hyn gyda'r cais.

Ni ellir gwneud cais am **ddeunyddiau** os na fyddant wedi'u hymgorffori yn yr adeiladwaith gan gontractwr a gofrestrir at ddibenion TAW a'u bod yn berthnasol i waith cymwys. Yn ogystal, ni ellir eu hawlio os na chânt eu cefnogi gan anfoneb berthnasol y contractwr.

Mae atgyweirio neu waith cynnal a chadw ar **organ bib** yn gymwys yn unig lle:
- Bo'r organ wedi'i hadeiladu fel ei bod yn rhan o adeiladwaith yr adeilad neu wedi'i hymgorffori'n Barhaol ynddo; ac y
- Gwnaed y gwaith ar neu ar ôl 22 Mawrth 2006.

Nid yw cyweirio ac aildiwnio'n gymwys oni bai ei fod yn ymwneud ag atgyweirio dilys. Os oes modd, darparwch naill ai restr o'r gwaith neu dystysgrif organ (gall eich contractwr ddarparu hon). Rydym yn cydnabod y gall argaeledd contractwyr organ olygu bod elfen o deithio neu lety yn rhan o'r anfoneb. Mae'r elfennau hyn yn gymwys.

Mae atgyweirio **Allorau** neu wneud gwaith cynnal a chadw arnynt yn gymwys yn unig pan fo'r allor wedi'i hadeiladu fel ei bod yn rhan o adeiladwaith yr adeilad neu wedi'i hymgorffori'n barhaol ynddo (h.y. byddai ei symud yn difrodi'r adeiladwaith). Os dyma'r achos, gwnewch hyn yn glir ar y ffurflen gais. Nid yw allorau yr ystyrir eu bod yn ddodrefn symudol yn gymwys.

Mae atgyweirio **Cofebion** neu wneud gwaith cynnal a chadw arnynt yn gymwys yn unig pan gânt eu hadeiladu fel eu bod yn rhan o adeiladwaith yr adeilad neu wedi'u hymgorffori'n barhaol ynddo (h.y. byddai eu symud yn difrodi'r adeiladwaith). Os dyma'r achos, gwnewch hyn yn glir ar y ffurflen gais.

Mae ***rheoli plâu*** yn gymwys ar yr amod ei fod yn ymwneud â'r adeiladwaith. Os na fydd yr anfoneb yn nodi'r math o bla, mae'n rhaid cynnwys hyn yn y cais.

Mae atgyweirio difrod sydd wedi'i achosi i'r adeiladwaith o ganlyniad i ***ladradau metel*** (gan gynnwys adnewyddu metelau sydd wedi'u dwyn) yn gymwys. Yn y mwyafrif o achosion, bydd yswirwyr yn talu costau difrod o'r fath; fodd bynnag, ni fydd y rhain fel arfer yn cynnwys swm y TAW, y dylid ei adennill drwy'r cynllun hwn. Dylech sicrhau nad yw'r anfoneb sy'n cefnogi'r cais wedi'i chyfeirio at y cwmni yswiriant, ond yn hytrach at yr eglwys, neu gyswllt perthnasol yn yr eglwys. Os nad oes yswiriant gennych, gellir hawlio'r swm TAW llawn o hyd drwy'r cynllun hwn. Dylech fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw rhai mesurau ataliol (gan gynnwys Technoleg ***SmartWater***) yn gymwys.

Rhestr Wirio Eitemau Cymwys

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r eitemau sydd naill ai'n gymwys neu ddim yn gymwys yn unol â'r cynllun. Sylwch, nid yw'r rhestr hon yn un derfynol gan y gall fod rhai eitemau nad ydym wedi'u cynnwys. Os ydych yn ansicr ynghylch p'iun ai yw'ch cais yn gymwys ar gyfer derbyn grant ai peidio, ffoniwch y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn uniongyrchol ar 0845 601 5945.

***EITEMAU A DDANGOSIR MEWN PORFFOR - MAE'R GWAITH YN GYMWYS O 22 MAWRTH 2006 YN UNIG.**

EITEMAU CYMWYS

ADEILADAU

- Atgyweirio'r to
- Atgyweirio'r gangell
- Atgyweirio festri
- Atgyweirio'r tŵr
- Atgyweirio'r parapetau
- Atgyweirio tulathau
- Ailblastro
- Ailbwyntio
- Atgyweirio'r gwaith carreg
- Atgyweirio gwaith pren *(yr adeiladwaith)*
- Atgyweirio Nwyddau Dŵr Glaw
- Atgyweirio cafnau
- Ailosod gwydr mewn ffenestri
- Rhwyllau / Barau ffenestri
- Atgyweirio'r croesfâu
- Atgyweirio pinaclau
- Atgyweirio rhonau
- Atgyweirio talcenni
- Atgyweirio draeniadau *(dŵr glaw, dŵr budr, draen Ffrengig neu suddfan ddŵr – oll y tu fewn i'r waliau terfyn)*
- Atgyweirio ffenestri *(neu ailosod tebyg am ei debyg)*
- Atgyweirio'r llawr *(y llawr ei hun/ teils yn unig)*

ALLANOL

- Atgyweirio'r/ Aileuro'r ceiliog gwynt
- Atgyweirio'r meindwr
- Dargludydd mellt
- Polyn baner *(dim ond os yw ar eglwys)*
- Croes *(dim ond os yw ar eglwys)*

MEWNOL

- Atgyweirio drysau *(os ydynt wedi'u hadeiladu yn yr adeiladwaith neu wedi'u hymgorffori ynddo)*
- Atgyweirio allorau *(os ydynt wedi'u hadeiladu yn yr adeiladwaith neu wedi'u hymgorffori ynddo)*
- Atgyweirio'r bedyddfaen *(os yw wedi'i hadeiladu yn yr adeiladwaith neu wedi'i hymgorffori ynddo)*
- Cofebion *(os ydynt wedi'u hadeiladu yn yr adeiladwaith neu wedi'u hymgorffori ynddo)*
- Paentio waliau / Murluniau *(costau teithio yn gymwys hefyd)*
- Atgyweirio Organau Pib *(mecanwaith, y casin, offer chwythu, ailosod y lledr. Hefyd, aildiwnio a chyweirio organ ar ôl ei hatgyweirio)*
- Seddau wedi'u gosod *(gan gynnwys clustogwaith, stripio, cwyro Ffrengig)*

CYFFREDINOL

- Trin lleithder
- Rheoli Plâu
- Cael gwared ar Asbestos *(lle'i defnyddir fel deunydd adeiladu)*
- Cloeon / Colfachau
- Grisiau *(tebyg am ei debyg yn unig)*
- Glanhau *(os yw hyn o ganlyniad i waith cymwys)*
- Rhagbaratoadau *(ar gyfer gwaith cymwys yn unig)*
- Gwaith Trydan *(DIM OND os:*
  1. y gwnaed peirianwaith trydanol tros dro er mwyn gwneud gwaith cymwys, neu
  2. y cafodd peirianwaith trydanol a oedd yn gweithio'n dda ei ddifrodi wrth wneud gwaith cymwys – yn yr achos hwn, dim ond y peirianwaith trydanol a ddifrodwyd a fydd yn cael ei gynnwys)
- Plymwaith *(fel y gwaith trydan)*
- Gwaith addurno *(os bydd hyn o ganlyniad i waith atgyweirio cymwys, neu yn waith cynnal a chadw'r adeiladwaith)*
- Ffrâm Cloch, clychau a rhaffau
- Clociau *(gan gynnwys wyneb, mecanwaith)*
- Gwaith / Arolygon ymchwiliadol *(dim ond lle mae hyn yn arwain at waith atgyweirio cymwys)*
- Ffioedd proffesiynol *(gan gynnwys penseiri, syrfewyr, goruchwylwyr cynllunio, ymgynghorwyr iechyd a diogelwch, archeolegwyr, pobl sy'n codi arian yn broffesiynol – rhaid i bob un fod yn gysylltiedig ag atgyweiriadau cymwys)*

DDIM YN GYMWYS

MEWNOL

- Allor *(os yw'n sefyll yn rhydd, wedi'i gosod neu'n ddatgysylltiol)*
- Bedyddfaen *(os yw'n sefyll yn rhydd, wedi'i gosod neu'n ddatgysylltiol)*
- Gorchudd lloriau
- Cofeb *(os yw'n sefyll yn rhydd, wedi'i gosod neu'n ddatgysylltiol)*
- Canllawiau
- Organau *(addasu, adleoli, wedi'i gosod neu'n sefyll yn rhydd). Hefyd, aildiwnio a chyweirio organ os nad yw ar ôl ei hatgyweirio.*
- Seddau sydd heb eu gosod
- Clustogau seddau, clustogau pen-glin, hesorau

ALLANOL

- Gwaith palmantu
- Cael gwared ar goed
- Waliau terfyn
- Rheiliau
- Pyrth mynwentydd

CYFFREDINOL

- Gwaith trydan
- Plymwaith
- Storio eitemau
- Deunyddiau yn unig *(rhaid eu hymgorffori naill ai mewn anfoneb contractwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, neu fod contractwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW yn eu defnyddio ar gyfer gwaith cymwys)*
- Gwaith mynediad neu newidiadau sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd *(gan gynnwys Archwiliad Mynediad a ffioedd proffesiynol perthnasol)*
- Clychau, systemau clychau wedi'u recordio *(gosod clychau ychwanegol neu unrhyw weithiau sy'n gymwys ar gyfer cyfradd TAW sero i'w chodi yn y tarddle)*
- Ffioedd proffesiynol. *(cyfreithwyr, cyfrifwyr. archwiliad pob pum mlynedd, costau'r Gyfadran Esgobaethol a chostau'r awdurdod lleol).*
- Cloc *(archwiliadau heb fod yn arwain at atgyweirio, ei drawsnewid i weindio awtomatig)*
- Cael gwared ar asbestos lle caiff ei ddefnyddio i inswleiddio pibelli, gwres a'r boeler
- Gwaith iechyd a diogelwch
- Addurno *(sy'n berthnasol i waith nad yw'n gymwys, neu y dewisir ymgymryd ag ef)*
- Cynllun Cynnal a Chadw *(lle y bo'n berthnasol i gynllun tymor hir ar gyfer gwaith yn hytrach nag i gontract penodol ar gyfer atgyweiriadau)*
- Hysbysfyrddau
- Silffoedd
- Cypyrddau

Nodyn 3.4: ‘anfoneb TAW’

Gyda'ch cais, mae'n rhaid cyflwyno ***anfoneb wreiddiol*** (neu anfoneb wreiddiol wedi'i derbynebu) oddi wrth y contractwr sy'n ardystio bod TAW wedi'i thalu. **Ni fydd ceisiadau'n cael eu talu heb y dystiolaeth ddogfennol wreiddiol hon. Nid yw llungopïau o anfonebau yn dderbyniol.**

Os nad yw’r anfonebau gwreiddiol gennych, gofynnwch i’r contractwr eu hailgynhyrchu cyn cyflwyno’ch cais. Os yw’r contractwr yn methu ag ailgynhyrchu’r anfoneb, fe’i derbynnir cyn belled ag y bo’n cael ei hanodi ‘copi gwirioneddol ac ardystiedig’, wedi’i lofnodi a’i ddyddio gan y contractwr.

Dim ond gwaith y talwyd TAW arno sy'n gymwys.

Lle bo cais yn cynnwys anfoneb sy’n berthnasol i adeiladau cymwys neu rai nad ydynt yn gymwys, atgyweirio neu waith cynnal a chadw, rhaid datgan y rhaniad naill ai yn yr anfoneb neu yng ngholofn 4 cwestiwn 23.

Lleiafswm gwerth gwaith sy'n gymwys ar gyfer y cynllun yw £1,000 (heb gynnwys TAW). Gall cais gynnwys nifer o hawliadau llai, ond rhaid i bob hawliad fod ar gyfer gwaith sy'n gymwys o dan y cynllun a rhaid iddynt ffurfio cyfanswm hawliad o nid llai na £1,000 net. Byddwch yn ymwybodol bod rhif adnabod unigryw gan bob eglwys, felly at ddibenion ailrecordio ac adrodd, rhaid cwblhau cais ar wahân ar gyfer pob eglwys unigol

Nodyn 3.5: Anfonebau Cadw

Lle bynnag y bo modd, dylai anfonebau cadw gael eu cynnwys ar geisiadau terfynol, neu gyda gwariant ychwanegol cymwys er mwyn gwneud yn siwr y bodlonir yr isafswm o £1,000. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, rydym yn deall y gall fod cryn oedi wrth i gontractwyr gyflwyno eu cyfrifon terfynol ac ynghylch penderfynu a ddylid rhyddhau’r swm o arian a gedwir ai peidio neu fod ei angen ar gyfer gwaith. Os ydych o’r farn ei bod yn amhriodol i oedi rhag cyflwyno’ch cais, ac y bydd y swm a gedwir yn llai na £1000 o bosibl, ffoniwch Ddesg Gymorth Mannau Addoli Rhestredig am gyngor ar 0845 601 5945.

Nodyn 3.6: ‘dyfarniad grant blaenorol’

Os yw’r gwaith dan sylw wedi bod yn destun dyfarniad grant blaenorol am gostau gwaith adeiladu, gan gynnwys TAW, oddi wrth:

- English Heritage
- Cadw
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Dosbarthwr arall y Loteri
- Historic Scotland
- Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon

Bydd yn ofynnol i fannau addoli dalu cyfran berthnasol o'r grant a dderbynnir o'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn ôl i'r asiantaethau statudol (uchod), oni bai bod y grant gwreiddiol eisoes wedi'i addasu i ystyried y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig. Fel llofnodwr, gofynnir i chi ardystio y bydd yr addoldy yn talu'r ad-daliadau sy'n ddyledus. Bydd manylion y ceisiadau hyn yn cael eu rhoi i'r asiantaethau dyfarnu grantiau perthnasol.

Nodyn 3.7: ‘Cyllid a Thollau EM’

Gall cyflenwi a gosod rhai cymhorthion penodol ar gyfer pobl anabl, a rhai addasiadau penodol i adeiladwaith adeiladau cymunedol rhestredig, gan gynnwys eglwysi, fod yn gymwys i TAW sero gael ei chodi yn yr anfoneb. Mae gwaith o'r fath yn gymwys o dan y Cynllun Mannau Addoli Rhestredig. I weld p'un a allai eich gwaith arfaethedig fod yn gymwys ar gyfer TAW sero o'r cychwyn, cysylltwch â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar 0845 010 9000. Mae Hysbysiad TAW 708 yn ymwneud ag addasiadau i adeiladau ac mae Hysbysiad TAW 701/7 yn ymwneud â chymhorthion ar gyfer pobl anabl. Gwelir y naill a'r llall yn http://www.hmrc.gov.uk/

Os codir tâl TAW arnoch yn anghywir, efallai y bydd eich cyflenwr yn gallu addasu ei gofnodion TAW ac ad-dalu'r TAW i chi. Ceir rhagor o fanylion ynghylch sut y gwneir hyn yn Hysbysiad TAW 700/45: "Sut i gywiro camgymeriadau TAW a gwneud addasiadau neu hawlio."

Cam 4 – Llenwi'r Ffurflen Gais

Peidiwch â llenwi'r ffurflen ond os ydych wedi dilyn y broses 4 cam a ddisgrifir uchod ac yn credu eich bod yn gymwys am y cynllun.

Llenwch y ffurflen gais yn glir a gwnewch yn siwr eich bod wedi llenwi pob adran. Bydd hyn yn gymorth i osgoi unrhyw oedi wrth brosesu a thalu eich hawliad. Ar ôl ei llenwi anfonwch y ffurflen gais i Gynllun Grantiau Mannau Addoli Rhestredig, Blwch Post 609, Casnewydd, De Cymru NP10 8QD

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, ffoniwch un o'n gweithredwyr ar 0845 601 5945. Codir pris galwad leol am yr alwad.

Adran 1: Manylion Cyswllt	**Cyfarwyddiadau**
1. Enw/cysegriad y man addoli rhestredig.	Rhowch enw llawn y man addoli rhestredig y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
2. Cyfeiriad y man addoli rhestredig.	Rhowch gyfeiriad yr addoldy rhestredig y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Sylwch fod yn rhaid nodi enw'r Sir ym mhob achos.
3. Enw'r awdurdod lleol /cyngor y mae'r man addoli rhestredig ynddo.	Rhowch enw'r awdurdod neu'r cyngor lleol lle lleolir y man addoli Y Cyngor Unedol fydd hwn yng Nghymru a'r Alban. Y Cyngor Dosbarth fydd hwn yng Ngogledd Iwerddon. Yn Lloegr, bydd un ai'n Fwrdeistref Llundain, y Fwrdeistref Fetropolitan, y Cyngor Dosbarth neu'r Cyngor Unedol.
4. Crefydd neu enwad.	Nodwch ba grefydd a/neu enwad a wasanaethir gan y man addoli.
5. Enw'r unigolyn/corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y gwaith sy'n destun y cais.	Efallai mai chi yw hwn, neu gorff arall.
6. Manylion y cyd-lofnodwr.	Rhaid iddo fod yn unigolyn sydd mewn swydd gyfrifol yn y corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y man addoli, e.e. offeiriad, gweinidog ac ati.
7. Manylion at ddibenion gohebu.	Nodwch enw'r sawl a fyddai orau i ymdrin ag ymholiadau pe bai'r angen yn codi. Dylech fod yn ymwybodol hefyd y bydd yr unigolyn hwn yn derbyn pob gohebiaeth berthnasol oddi wrthym (gan gynnwys Taliadau ac anfonebau a ddychwelir).
Adran 2: Man Addoli	**Cyfarwyddiadau**
8.	Gweler Cam 1 yn y nodiadau arweiniad.
9.	Gweler Cam 1 yn y nodiadau arweiniad.
10.	Gweler Cam 1 yn y nodiadau arweiniad.
11.	Gweler Cam 1 yn y nodiadau arweiniad.
Adran 3: Adeilad Rhestredig	**Cyfarwyddiadau**
12.	Gweler Cam 2 yn y nodiadau arweiniad.
13. Gradd neu gategori rhestru:	Mae nifer o raddau neu gategorïau o adeiladau rhestredig. Os gwyddoch beth yw'r radd neu'r categori rhestru, nodwch ef yma

Adran 4: Gwariant Cymwys	Cyfarwyddiadau
14.	Gweler Cam 3 yn y nodiadau arweiniad.
15. Disgrifiad o'r gwaith.	Sylwch y bydd angen i ni sicrhau bod y gwaith yn ymwneud ag adeiladwaith yr adeilad fel yr esboniwyd yng Ngham 3 o nodiadau'r arweiniad. Dylech sicrhau bod y dogfennau ategol a amgaeir yn ein galluogi ni i wneud hyn.
16.	Gweler Cam 3 yn y nodiadau arweiniad.
17.	Gweler Cam 3 yn y nodiadau arweiniad.
18. Cyfradd TAW net wirioneddol	Bydd angen i ni weld tystiolaeth o'r gyfradd TAW a gytunwyd gyda Chyllid a Thollau EM. Bydd y dystiolaeth hon fel arfer ar ffurf llythyr oddi wrth Gyllid a Thollau EM, a dylid ei gynnwys gyda'ch cais.
19.	Fel uchod.
20.	Gweler Cam 3 yn y nodiadau arweiniad.

Adran 5: Eich hawliad

Dangosir enghreifftiau o hawliadau am waith cymwys isod:

Gwaith a wnaed rhwng 1 Ebrill 2001 a 31 Mawrth 2004

Cyf Anfoneb	Cyfanswm Net ①	Cyfradd TAW ②	% o'r Gwaith Cymwys a Adenillir ③	Cyfanswm Gwerth y Grant a Hawliwyd ④
ABC123	£100.00	17.5%	100%	£12.50

① - Swm cymwys yr anfoneb cyn ychwanegu TAW.
② - Cyfradd wirioneddol TAW a godwyd (17.5% yw hwn yn y mwyafrif o achosion).
③ - Y gwaith a nodir ar yr anfoneb rydych yn ei ystyried yn gymwys (yn yr enghraifft uchod, ystyrir bod yr holl waith yn gymwys – h.y. 100%. Pe bai ond hanner y gwaith yn gymwys, nodir 50% yng ngholofn 3).
④ - Yr arian y byddech yn disgwyl iddo gael ei dalu yn unol â Chynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig. Am waith rhwng 1.4.01 a 31.3.04, 12.5% o'r swm net cymwys yn unig y gellir ei hawlio.

Gwaith a wnaed er 1 Ebrill 2004

Cyf Anfoneb	Cyfanswm Net ①	Cyfradd TAW ②	% o'r Gwaith Cymwys a Adenillir ③	Cyfanswm Gwerth y Grant a Hawliwyd ④
ABC123	£100.00	17.5%	100%	£17.50

① - Swm yr anfoneb cyn ychwanegu TAW.
② - Cyfradd wirioneddol TAW a godwyd (17.5% yw hwn yn y mwyafrif o achosion neu 15% yn ystod cyfnod y gostyngiad dros dro a gychwynnodd ar 1 Rhagfyr 2008 ac sydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2009).
③ - Y gwaith a nodir ar yr anfoneb rydych yn ei ystyried yn gymwys (yn yr enghraifft uchod, ystyrir bod yr holl waith yn gymwys – h.y. 100%. Pe bai ond hanner y gwaith yn gymwys, nodir 50% yng ngholofn 3).
④ - Yr arian y byddech yn disgwyl iddo gael ei dalu yn unol â Chynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig. Am waith er 1 Ebrill 2004, gellir hawlio'r TAW gyfan.

Ar gyfer anfonebau sy'n cynnwys gwaith a wnaed cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2004, os na fydd yr anfoneb yn pennu sut y rhennir y gwaith a wnaed cyn ac ar ôl y dyddiad hwn, rhaid datgan naill ai'r ganran neu gost y gwaith a wnaed ar ôl 1 Ebrill 2004 ar y ffurflen gais.

Yr isafswm y gallwch ei hawlio mewn cais unigol yw'r TAW sy'n codi o waith cymwys sy'n costio £1,000. Os nad ydych wedi gwneud gwaith hyd at y swm hwn, a wnewch chi gadw eich holl ddogfennaeth a chyflwyno'r cais pan fydd gennych yr anfonebau cymwys ychwanegol, a fydd yn dod â'r swm sy'n cael ei hawlio i'r isafswm gofynnol. Nid oes terfyn amser ar hawlio yn ystod oes y cynllun (y disgwylir iddo barhau hyd 31 Mawrth 2011 ar hyn o bryd)

Adran 6: Manylion talu

Gwneir taliadau dim ond i gyfrifon banc/cymdeithas adeiladu a awdurdodwyd at ddefnydd swyddogol gan y man addoli sy'n destun y cais.

Adran 7: Datganiad

Dylai dau unigolyn gwahanol sydd wedi'u hawdurdodi gan y corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros y man addoli, lofnodi a chydlofnodi'r datganiad hwn. Er enghraifft, efallai mai'r Trysorydd yw'r llofnodydd, a'r offeiriad neu'r gweinidog yw'r cyd-lofnodydd. Dylai'r cyd-lofnodydd fod mewn swydd uwch.

CWESTIYNAU CYFFREDIN

YMHOLIADAU YN YMWNEUD Â RHESTRU

- **Dydw i ddim yn gwybod a yw'r eglwys yn adeilad rhestredig? Ble gallaf gael y wybodaeth hon?**

  Cysylltwch naill ai ag Adran Gynllunio eich Awdurdod Lleol, neu'r asiantaeth restru statudol berthnasol (am fanylion ar gyfer cysylltu, cyfeiriwch at Atodiad A ar glawr ôl y daflen hon)

  Ni fydd atgyweiriadau i adeiladau anrhestredig yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn. Fodd bynnag, os ydych yn ystyried bod yr adeilad yn haeddu cael ei restru, dylech ystyried cyflwyno cais i'r asiantaeth restru statudol berthnasol.

- **Os ydw i'n trefnu rhestru fy adeilad nawr, a allaf wneud cais ar gyfer gwaith a wnaed cyn ei restru?**

  Na. Ni dderbynnir ceisiadau am waith a wnaed ar adeiladau nad ydynt wedi'u rhestru ar yr adeg honno, ni waeth a ydynt yn cael eu rhestru wedyn yn y dyfodol. Ystyrir ceisiadau yn unig am atgyweirio adeiladau sydd wedi'u rhestru pan wneir y gwaith.

- **Roedd fy adeilad wedi'i restru pan wnaed y gwaith, ond yna tynnwyd ei enw oddi ar y rhestr cyn i mi gyflwyno fy nghais am Grant Mannau Addoli Rhestredig. A allaf wneud cais o hyd, er nad yw'r adeilad wedi'i restru bellach?**

  Gallwch. Rhaid i chi ddarparu gyda'ch cais, dystiolaeth bod y gwaith wedi cael ei wneud pan oedd yr adeilad wedi'i restru.

- **Dydw i ddim yn gwybod beth yw'r radd / categori rhestru. Ydy hyn o bwys?**

  Nac ydyw, ar gyfer croesgyfeirio'ch manylion ar ein cofrestr o adeiladau rhestredig yn unig y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon. Gellir gadael C13 yn wag – ni fydd hyn yn achosi oedi o ran prosesu'ch cais.

YMHOLIADAU AM ANFONEBAU / TAW

- **A allaf wneud cais os ydw i wedi colli fy anfonebau TAW?**

  Gallwch ddarparu anfoneb daledig wreiddiol yn eu lle. Os na allwch wneud hynny, bydd angen i'ch contractwr ailgynhyrchu eich anfonebau, ac mae'n rhaid i'r contractwr nodi eu bod yn gopi gwir ac ardystiedig, eu llofnodi a'u dyddio. Os na ddarperir anfoneb addas, bydd hyn yn golygu na dderbynnir y cais.

- **A allaf wneud cais os nad ydw i wedi talu fy anfoneb TAW?**

  Na allwch. Mae'n rhaid eich bod wedi talu eich anfoneb TAW cyn gwneud cais am grant o dan y cynllun hwn.

- **A allaf gyflwyno fy holl anfonebau i weithredwr er mwyn iddynt hwy benderfynu beth sy'n gymwys?**

  Na allwch. Mae'n hanfodol eich bod yn darllen yr Arweiniad ar y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig ac yn cyflwyno dim ond yr anfonebau hynny sydd a wnelont â gwaith sy'n gymwys o dan y cynllun hwn. Bydd cyflwyno nifer fawr o anfonebau amhriodol i'r gweithredwr yn cynyddu'r posibilrwydd o wrthod eich cais, a gall achosi oedi cyffredinol wrth brosesu ceisiadau.

- **A oes yn rhaid i'r contractwr fod wedi'i gofrestru ar gyfer TAW er mwyn bod yn gymwys?**

  Oes.

- **Os byddaf yn gwneud y gwaith yn uniongyrchol a bod yn rhaid talu TAW, a oes modd i mi adennill hyn?**

  Oes, ond ar yr amod eich bod yn gontractwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.

- **Gwnaed y gwaith gan gontractwr / cynulleidfa nad yw wedi'i gofrestru/chofrestru ar gyfer TAW. A allwn ni hawlio'r TAW ar gyfer y deunyddiau y gwnaethom eu prynu?**

  Na. Ni allwch hawlio TAW ar ddeunyddiau oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn yr adeiladwaith gan gontractwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.

- **A allaf gyflwyno anfonebau sydd wedi'u dyddio ar ôl 1/4/01 yn unig?**

  Na, ond gallwch hawlio am waith ar ôl 1/4/01 yn unig. Mewn achosion lle mae'r anfoneb yn ymwneud â gwaith sy'n rhychwantu'r cyfnod yn union cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2001, rhaid i chi sicrhau bod y rhaniad yn cael ei ddatgan naill ai ar yr anfoneb neu ar y ffurflen gais.

YMHOLIADAU YN YMWNEUD Â'R FFURFLEN GAIS

- **A oes ots os na fydd gan y bobl sy'n llofnodi'r ffurflen wybodaeth lawn am y gwaith a wnaed?**

  Rhaid mai'r cyd-lofnodwr sydd â'r uwch swydd, a rhaid iddo nodi ei fanylion yn C6. Ond os nad dyma'r unigolyn gorau i gysylltu ag ef ar gyfer ymholiadau, rhaid nodi dewis arall yn C7. Dyma'r unigolyn y byddwn yn cyfeirio pob ymholiad ato ac yn dychwelyd yr holl waith papur iddo.

  Os nad oes dewis arall wedi'i nodi yn C7, y cydlofnodwr y ceir manylion amdano yn C6 fydd y prif gyswllt.

  Ni allwn gyfathrebu ag unrhyw drydydd parti (h.y. contractwr, pensaer ac ati).

- **A fydd y wybodaeth a gyflwynir ar ffurflen gais Mannau Addoli Rhestredig yn cael ei rhannu ag asiantaethau statudol eraill?**

  Bydd. Hysbysir asiantaethau statudol am yr holl grantiau a ddyfernir o dan y Cynllun Mannau Addoli Rhestredig. Gwneir hyn er mwyn osgoi'r posibilrwydd o dalu arian cyhoeddus ddwywaith am yr un costau, i bob pwrpas.

- **A allaf wneud cais am grant Mannau Addoli Rhestredig ac am grant gan asiantaeth statudol arall am yr un gwaith?**

  Gallwch. Fodd bynnag, rhaid i chi sicrhau bod y grant gan yr asiantaeth statudol arall yn ystyried eich grant Mannau Addoli Rhestredig. Os nad yw'n gwneud hynny, yna bydd yn rhaid i chi ad-dalu iddynt y gyfran berthnasol o'r arian a gewch ar gyfer y grant Mannau Addoli Rhestredig.

- **Dyfarniadau grant blaenorol – pam na all y cynllun Mannau Addoli Rhestredig leihau'r swm sy'n ddyledus i'r eglwys, ac ad-dalu'r sefydliad grant yn uniongyrchol?**

  Contract rhwng yr eglwys a'r corff sy'n talu'r grant yw unrhyw ddyfarniad grant blaenorol, ac nid yw'n gysylltiedig â'r cynllun hwn.

- **Defnyddir yr eglwys yn ogystal ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, grwpiau sgowtiaid, ac ati. A yw hyn yn iawn?**

  Ydy, mae hyn yn iawn os addoli crefyddol cyhoeddus yw'r prif ddefnydd. Fodd bynnag, os oes unrhyw ran o'r eglwys yn cael ei defnyddio fel llety, nid yw'r elfen hon yn gymwys o dan y cynllun.

  Pan fydd anfonebau yn cynnwys yr eglwys a'r llety, rhaid dangos y rhaniad yn y gost yn glir naill ai ar yr anfoneb neu ar y ffurflen gais.

- **Mae'r eglwys ar gau ar hyn o bryd am resymau iechyd a diogelwch. Felly, nid yw wedi cynnal chwe gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. A ydw i'n dal i fod yn gymwys?**

  Ar yr amod bod y gwaith wedi'i ddechrau ymhen cyfnod byr ar ôl cau'r eglwys, a'i bod wedi cael ei defnyddio ar gyfer o leiaf chwe gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol cyn ei chau, mae hyn yn iawn.

  Mewn achosion lle mae oedi rhwng y cau a'r gwaith yn dechrau, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ar 0845 601 5945 am arweiniad. (Dylech fod yn ymwybodol y gallai fod angen i ni gyfeirio'ch achos at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am benderfyniad ar gymhwyster eich cais).

- **Mae Cwestiwn 23 yn ddryslyd.**

  Os ydych yn ei chael hi'n anodd llenwi'r adran hon o'r ffurflen gais, cysylltwch â'r Llinell Gymorth. Fel arall, gadewch y bwlch ar gyfer ateb y cwestiwn hwn yn wag. Ni fydd hyn yn achosi oedi cyn gwneud y taliad, oherwydd gallwn gael y wybodaeth sy'n ofynnol o'r anfonebau. Os oes angen egluro unrhyw bwyntiau arnom, byddwn yn cysylltu â'r sawl a benodwyd i dderbyn gohebiaeth.

YMHOLIADAU YNGHYLCH CYMHWYSTER

- **Pam nad yw'r gwaith sy'n gysylltiedig â mynediad ar gyfer pobl anabl yn gymwys?**

  Yn gyffredinol, bydd gwaith a wneir mewn perthynas â dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA), neu waith arall i hwyluso mynediad i bobl anabl, yn cael ei ystyried yn 'welliannau' neu osodion a gosodiadau ychwanegol.

  Dylai gwaith i ddarparu mynediad i gadair olwyn, gan gynnwys ehangu unrhyw fylchau drysau, gosod rampiau neu gael gwared ar bibwaith, a wnaed mewn perthynas â gofynion DGSA, fod yn gymwys o dan y system gymorth TAW, a dylai gael cyfradd TAW sero yn yr anfoneb. Gallai gwaith arall fod yn gymwys am gymorth hefyd. Am wybodaeth ynghylch codi tâl TAW, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM yn uniongyrchol ar 0845 010 9000 neu edrychwch ar hysbysiad TAW 701/7.

- **Gwaith trydan, plymwaith a gwres – pam nad yw'r rhain yn gymwys?**

  Gosodion a gosodiadau yw'r rhain. Mae gwaith yn gymwys yn unig os daw o dan y naill neu'r llall o'r categorïau canlynol:

  1. *Mae'r gwaith yn waith dros dro (h.y. goleuadau dros dro, generaduron), ac mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith atgyweirio cymwys. Rhaid cael gwared ar y rhain ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.*

  2. *Crëwyd y gwaith wrth wneud gwaith atgyweirio cymwys arall (h.y. wrth drwsio wal, difrodwyd gwaith trydan). Yn yr enghraifft hon, dim ond yr elfen a ddifrodwyd sy'n gymwys, ac nid yw'r gwaith a wnaed ar yr un pryd yn gymwys.*

- **A allaf hawlio am dâl cadw yn unig sydd yn llai na £1,000, ond sy'n berthnasol i waith a benderfynwyd arno yn flaenorol drwy'r cynllun?**

  Na. Ymdrinnir â phob cais yn unigol, felly rhaid iddynt gyrraedd y trothwy gofynnol, sef £1,000. Os yw eich tâl cadw yn debygol o fod yn is na'r swm hwn, byddem yn eich cynghori i gadw'r cais terfynol nes eich bod yn gallu cynnwys yr anfoneb hon.

YMHOLIADAU CYFFREDINOL

- **Beth yw'r dyddiad cau / terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais?**

  Dyddiad terfynu'r cynllun ar hyn o bryd yw 31 Mawrth 2011. Nid oes terfyn amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau o dan y cynllun hwn.

- **A oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gallaf eu cyflwyno?**

  Nac oes.

- **Apeliadau - Beth gallaf ei wneud os derbyniaf daliad nad wyf yn cytuno ag ef?**

  Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r Llinell Gymorth Mannau Addoli Rhestredig. Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, cyfeirir eich cais at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer penderfyniad terfynol.

- **Wrth wneud cais, a allwn ni enwebu i bwy y gwneir y taliadau?**

  Dylid gwneud taliadau i'r sefydliad sy'n talu'r gost TAW am yr atgyweirio – y Cyngor Plwyf Eglwysig neu gorff priodol fyddai hwn fel arfer.